Inspection of Youth Offending

Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc ym:

# **Mlaenau Gwent a Chaerffili**

ISBN: 978-1-84099-357-8

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc ym Mlaenau Gwent a Chaerffili ei gynnal fel rhan o'r rhaglen o Arolygiadau Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioladol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Yn yr ardal drwyddi draw, gwnaethoch farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi cael eu cyflawni'n ddigon da 56% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, roedd y gwaith i sicrhau cyn lleied o *Risg o Niwed* ag sy'n bosibl *i eraill* yn ddigon da 54% o'r amser, a'r gwaith i sicrhau bod pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu'n cael ei wneud yn ddigon da 67% o'r amser. Ceir dadansoddiad mwy manwl o'n canfyddiadau ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, a rhoddir crynodeb mewn tabl yn Atodiad 1. Mae modd gweld y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein canfyddiadau yn rhanbarthau Lloegr a arolygwyd cyn belled. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith Diogelu yw 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio o 38 i 82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* yw 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio o 36 i 85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer Tebygolrwydd o Aildroseddu yw 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio o 50 i 82%.

Gwelsom fod yno dîm staff ymroddedig a oedd yn dangos amrywiaeth o sgiliau ac a oedd yn gallu meithrin cysylltiad â phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd asiantaethau partner wedi bod yn gefn mawr i reolwyr achosion, a'r asiantaethau hynny'n cynnwys gweithwyr camddefnyddio sylweddau, gweithwyr cymorth rhianta a gweithwyr cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg.

Mae angen gwaith i wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau *Risg o Niwed* ac achosion agored i niwed, ac i gynhyrchu cynlluniau manwl i reoli'r materion y tynnwyd sylw atynt. Nid oedd dulliau sicrhau ansawdd na'r panel rheoli risg wedi llwyddo i sicrhau bod y gwaith wedi'i gynllunio'n gyson yn unol ag anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

Drwyddi draw, ein barn yw mai set gymysg o ganfyddiadau sydd yma.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi*

*Medi 2010*

## Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i holl staff y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, i aelodau'r Bwrdd Rheoli ac i'r sefydliadau partner am eu cymorth i sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi mynd rhagddo'n hwylus.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Yvonne McGuckian* |
| *Asesydd Ymarfer* | *Kerry Robertson* |
| *Asesydd CCI* | *David Watkins* |
| *Staff Cymorth* | *Andrew Doyle* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Catherine Calton; Kirk Davis; Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan MacDonald* |

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 4 |
| Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 7 |
| Y camau nesaf | 7 |
| Safbwynt y Defnyddwyr Gwasanaeth | 8 |
| Rhannu arferion da | 9 |
| 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| 1.1 Risg o Niwed i eraill | 10 |
| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu | 12 |
| 1.3 Diogelu | 13 |
| 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 16 |
| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill | 16 |
| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu | 17 |
| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc | 18 |
| 3. CANLYNIADAU | 20 |
| 3.1 Sicrhau canlyniadau | 20 |
| 3.2 Cynnal canlyniadau | 21 |
| Atodiad 1: Crynodeb | 22 |
| Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 23 |
| Atodiad 3a: Data arolygu | 24 |
| Atodiad 3b: Data arolygu | 25 |
| Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer | 25 |
| Atodiad 5: Rhestr Termau | 26 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran am bob un o’r ‘meini prawf ymarfer’ sy’n nodi pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio’n bennaf ar yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith ym mhob sampl o achosion.

Felly, roeddem yn gallu rhoi sgôr sy’n cynrychioli pa mor aml oedd yr agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* ar yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi prif 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd yma ar y gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| **Sgôr *Diogelu:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***56%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YN SYLWEDDOL*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd:* sgôr *Risg o Niwed:*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae’r sgôr yn bwysig i’n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:***<br>***54%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YN SYLWEDDOL*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd:* sgôr *Tebygolrwydd o Aildroseddu*** | |
|---|---|
| Mae’r sgôr hwn yn nodi’r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel | |
| ***Sgôr:***<br>***67%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori'r sawl sy'n darllen adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau ardaloedd unigol yn fanwl. Nid yw cymariaethau o'r fath o anghenraid yn ddilys oherwydd bod maint y samplau a hefyd broffil yr achosion a gynhwysir yn sampl pob ardal yn amrywio ychydig. Credwn mai'r ffordd orau o ddarllen y sgoriau yw drwy eu hystyried yn grynodeb bras o'r hyn a ganfuwyd mewn ardal unigol er mwyn canolbwyntio'r gwaith gwella yn yr ardal honno ar y maes hwnnw yn y dyfodol.

## **Argymhellion** (nodir pwy sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen newid pethau er mwyn sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad a chynllun o safon yn cael eu cwblhau'n brydlon, gan ddefnyddio Asset, a hynny ar ddechrau'r achos (Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)

(2) yn benodol, bod asesiad o safon yn cael ei wneud yn brydlon o ba mor agored i niwed yw'r unigolyn ac o'r *Risg o Niwed i eraill*, a hynny ar y dechrau, fel sy'n briodol i'r achos penodol, gan gynnwys ystyried yr holl ymddygiadau perthnasol blaenorol (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(3) yn sgil yr asesiad, bod y cynllun ymyrryd yn cofnodi'n benodol yr hyn a wneir yn awr er mwyn diogelu lles y plentyn neu'r person ifanc, er mwyn ei wneud yn llai tebygol o aildroseddu ac er mwyn sicrhau cyn lleied o *Risg o Niwed i eraill* ag y bo modd (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(4) bod cynllun gwaith yr achos yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei gofnodi'n gywir yn Asset yn unol â gofynion y safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(5) bod tystiolaeth yn y ffeil bod y rheolwyr yn sicrhau ansawdd yn rheolaidd, yn enwedig yng nghyswllt penderfyniadau sgrinio, fel sy'n briodol i'r achos penodol (Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid).

Yn ogystal â hynny:

(6) bod asesiadau'n cael eu hadolygu yng ngoleuni gwybodaeth newydd arwyddocaol, gan gynnwys cyflawni troseddau newydd ac adroddiadau ynglŷn ag ymddygiadau niweidiol (Rheolwyr a Staff y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(7) bod cynlluniau effeithiol i reoli'r *Risg o Niwed i eraill* ac achosion agored i niwed yn cael eu cynhyrchu'n brydlon a'u bod yn manylu ynglŷn â'r camau y mae angen eu cymryd, gan gynnwys y camau sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc)

(8) bod adolygiadau o'r *Risg o Niwed i eraill* ac achosion agored i niwed yn cael eu hailasesu pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi o dan glo a bod yr adolygiadau'n adlewyrchu unrhyw risg a berir yn sgil hynny (Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc).

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwella i fynd i'r afael â'r argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Ar ôl ei gwblhau, anfonir y cynllun at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn iddo fonitro'i roi ar waith.

### Sylwer

*Yn ystod ein proses sicrhau ansawdd ôl-arolygu arferol, gwelsom fod angen anwybyddu'r sgoriau a gofnodwyd ar gyfer chwech achos. Felly, mae'r sgoriau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar dri-deg-dau o achosion.*

## Safbwynt y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a Phobl Ifanc

Llenwodd pum deg ac un o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad.

- Roedd y plant a'r bobl ifanc yn deall yn iawn beth oedd hanfod eu gorchymyn a'r hyn yr oedd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio ag ef. Roeddent yn teimlo bod y staff wedi treulio amser yn siarad â hwy ac yn esbonio beth a fyddai'n digwydd er mwyn eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer y panel. Roedd y rhan fwyaf yn cofio iddynt gael copi o'u cynllun.
- Roedd pob un, ar wahân i un plentyn neu berson ifanc, yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt a'u bod yn awyddus i'w helpu.
- Yn ystod eu gorchmynion, teimlai 11 o blant neu bobl ifanc fod rhywbeth wedi digwydd yn eu bywyd a oedd wedi gwneud iddynt deimlo'n ofnus. Dywedodd pedwar o blant a phobl ifanc fod y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi'u cynorthwyo gyda hyn. Teimlai tri nad oeddent wedi cael digon o gymorth.
- Roedd tri deg a phedwar o blant a phobl ifanc yn teimlo bod rhywbeth wedi gwella yn eu bywyd yn sgil gweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.
- Gofynnwyd gyda pha bethau roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi bod o gymorth a dyma rai o'r atebion mwyaf cyffredin: gwneud gwell penderfyniadau, deall eu troseddu, cymorth gyda chamddefnyddio alcohol a chymorth gyda chyflogaeth, hyfforddiant ac addysg.
- Gofynnwyd a oedd y gwaith roeddent wedi'i wneud gyda'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi golygu y byddent yn llai tebygol o droseddu eto yn y dyfodol. Teimlai tri deg a thri eu bod yn llai tebygol o lawer o droseddu eto, teimlai 12 eu bod ychydig yn llai tebygol o droseddu eto a theimlai pedwar nad oedd wedi gwneud gwahaniaeth o gwbl.
- Teimlai llawer o blant a phobl ifanc fod eu gweithwyr wedi treulio llawer o amser yn sicrhau eu bod yn deall yn iawn yr hyn a oedd yn digwydd a bod y plant a'r bobl ifanc yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn sesiynau gyda'r staff.
- Roedd y plant a'r bobl ifanc yn gallu disgrifio sut roeddent yn meddwl yn wahanol yn sgil eu gwaith gyda'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Dywedodd un person ifanc: *'Mae'r gwaith rwy' wedi'i wneud gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc wedi gwneud imi sylweddoli'r niwed rwy'n ei wneud i bobl eraill pan fydda i'n troseddu ac wedi fy helpu i benderfynu na wnaiff hynny ddigwydd eto'.*

### Dioddefwyr

Llenwyd dau holiadur gan bobl a oedd wedi dioddef yn sgil troseddu gan blant a phobl ifanc.

- Roedd y ddau ddioddefwr yn teimlo bod y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi esbonio pa wasanaeth y gallent ei gynnig a'u bod wedi rhoi sylw i'w hanghenion.
- Roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi rhoi'r cyfle iddynt drafod yr hyn a oedd wedi digwydd iddynt ac roedd sylw priodol wedi'i roi i'w diogelwch.

## Rhannu arferion da

Isod, ceir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio**<br><br>**Maen Prawf cyffredinol 1.2 d** | Roedd bachgen 16 oed a chanddo anghenion arbennig yn dod at ddiwedd ei orchymyn ac roedd angen ei atgyfeirio er mwyn iddo gael cymorth arbenigol. Trefnodd gweithiwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc gyfarfod amlasiantaeth â phawb a oedd yn ymwneud â'i achos. Treuliwyd amser yn penderfynu pa wasanaeth oedd y gwasanaeth iawn i ddarparu cymorth parhaus i'r person ifanc a'i rieni. Yn sgil hyn, lluniwyd adroddiad cynhwysfawr a oedd yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â'r dulliau o feithrin cysylltiad â'r person ifanc. Cynigiodd gweithiwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc hefyd ysgrifennu adroddiad a oedd wedi'i addasu'n arbennig ar gyfer y person ifanc, er mwyn iddo wybod beth oedd wedi cael ei drafod a beth oedd y cynllun ar ei gyfer. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf cyffredinol 2.2 a** | Roedd gan Neil, bachgen 15 oed hanes hir o gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol a chyffuriau. Aseswyd ei anghenion ar ddechrau ei orchymyn ac roedd gwaith wedi'i wneud i'w gynorthwyo i ddefnyddio llai o gyffuriau ac alcohol a deall sut roedd sylweddau'n effeithio ar ei ymddygiad. Tua diwedd y gorchymyn, lluniwyd cynllun ôl-ofal i gynorthwyo Neil ar ôl i'w gyfnod o gael cymorth gan y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc ddod i ben. Trafodwyd y cynllun gydag ef, a llwyddodd i greu cysylltiadau â mudiadau yn y gymuned. |
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf cyffredinol 3.2 a** | Roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi datblygu tystysgrif cwblhau a roddid i bob plentyn a pherson ifanc a fyddai'n cwblhau gorchymyn cyfeirio. Ar gefn y dystysgrif, roedd gwybodaeth a oedd yn gymorth iddynt esbonio i ddarpar gyflogwyr beth oedd natur y gorchymyn ac yn dweud eu bod wedi cwblhau'r gofynion yn llwyddiannus. Roedd y cynllun hwn yn gymorth i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol ac yn rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc y gallent gyfeirio ati pan oedd angen. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| **1.1 Risg o Niwed i eraill:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol***<br>*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir a phrydlon, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN.* | |
| ***Sgôr:***<br>***49%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YN SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd RoND wedi'i sgrinio ym mhob achos ac eithrio un, a 24 achos o blith 31 wedi'u sgrinio mewn pryd.

(2) Roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn gallu manteisio ar system Swift a oedd yn rhoi manylion unrhyw ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Ym mhob ffeil, roedd manylion ymholiadau i'r system hon, ynghyd â manylion gwirio cyfeiriadau gan yr heddlu er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod am unrhyw broblemau hysbys.

(3) Roedd anghenion a dymuniadau dioddefwyr wedi'u hasesu'n ddi-oed ac roedd y rheini'n aml ar gael ar ddechrau'r gorchymyn.

(4) Roedd Cynllun Rheoli Risg wedi'i gwblhau mewn 12 o blith 14 o achosion lle'r oedd gofyn paratoi cynllun o'r fath.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Dim ond mewn 8 o'r 32 achos yr oedd y *RoND* wedi'i sgrinio'n gywir; yn aml, nid oeddent yn adlewyrchu euogfarnau blaenorol ac ymddygiad a oedd yn peri risg. Roedd manylion yr euogfarnau blaenorol a ddarparwyd gan yr heddlu'n cynnwys adran ar gyfer digwyddiadau nad oeddent wedi arwain at Gamau Pellach. Roedd yr adran hon yn rhestru ystod o ymddygiadau a allai fod yn niweidiol. Ni welsom fod camau pellach wedi'u cymryd ar sail yr wybodaeth hon a allai fod yn gymorth wrth asesu'r *RoN.*

(2) Roedd asesiadau *RoND* wedi'u cynnal mewn 16 o'r 19 achos perthnasol. O blith y rhain, roedd 12 wedi'u cyflawni'n brydlon. Dim ond pedwar o'r asesiadau hyn a oedd o safon ddigonol yn ein barn ni. Yn aml, nid oedd ymddygiad perthnasol blaenorol wedi'i ystyried ac nid oedd categori'r risg a gofnodwyd wrth sgrinio, wrth gynnal asesiad llawn ac wrth baratoi'r Cynllun Rheoli Risg bob tro'n cyfateb â'i gilydd. Roedd llawer o'r asesiadau heb eu seilio ar dystiolaeth dda, a phrin oedd yr wybodaeth neu'r dadansoddiad o *RoN i eraill,* gan gynnwys risg i ddioddefwyr a'r cyhoedd.

(3) Dim ond hanner yr achosion perthnasol a oedd wedi defnyddio digon ar asesiadau eraill. Nodwyd nad oedd yr wybodaeth a gafwyd am ddioddefwyr a chanlyniadau archwiliadau gan wasanaethau cymdeithasol plant bob tro wedi cael eu defnyddio'n sail i'r asesiadau.

(4) Roedd deuddeg Cynllun Rheoli Risg wedi'u llunio; o blith y rhain, dim ond tri a gwblhawyd mewn pryd a dim ond un o'r rheini oedd o safon ddigon da. Nid oedd yr un rheswm unigol dros annigonolrwydd y Cynlluniau Rheoli Risg, a gwelsom amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys diogelwch dioddefwyr, rolau a chyfrifoldebau aneglur a diffyg cynllunio'r ymateb. Roedd rhai o'r Cynlluniau Rheoli Risg wedi'u cwblhau'n hwyr iawn yn y gorchymyn. Mewn ambell achos, nid oedd cofnod o'r camau yr oedd staff y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn bwriadu eu cymryd.

(5) Yn aml, ni fyddai'r panel rheoli risg yn sylwi ar yr wybodaeth a'r ffactorau perthnasol a phrin oedd y dystiolaeth i awgrymu eu bod yn manteisio ar wybodaeth o lygad y ffynnon. Yn ein barn ni, yn yr achosion perthnasol, nid oedd y Cynlluniau Rheoli Risg wedi cael eu goruchwylio'n effeithiol gan reolwyr.

(6) Roedd diffyg sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr bod cynlluniau'n cael eu cwblhau lle'r oedd angen hynny. Nodwyd mewn ambell achos, fod y Cynllun Rheoli Risg i'w gwblhau o dan oruchwyliaeth. Serch hynny, nid oedd rhywun bob tro'n sicrhau bod hyn yn digwydd.

(7) Roedd categoreiddio'r lefelau RoND yn gywir mewn 66% o'r asesiadau cychwynnol. Fodd bynnag, roedd lefelau'r asesiadau'n amrywio'n fawr, o fewn cyfnod byr, a dibynnu ar bwy oedd wedi gwneud yr asesiad. I bob golwg, ychydig o gysondeb oedd rhwng y tri thîm a oedd yn gwneud yr asesiadau.

(8) Pan fyddai plentyn neu berson ifanc yn cael ei ddedfrydu i gyfnod dan glo, byddai'r lefelau risg yn cael eu newid yn awtomatig i risg ganolig o'r lefel a aseswyd cyn hynny. Nid oedd hyn bob tro'n adlewyrchu'r sefyllfa'n gywir. Ychydig o ystyriaeth a roddid i'r potensial ar gyfer risg yn ystod cyfnod o dan glo; un enghraifft o hynny oedd plant a phobl ifanc y gwyddid eu bod yn bwlio eraill.

(9) Roedd nifer o achosion nad oedd angen Cynllun Rheoli Risg ar eu cyfer ond lle'r oedd angen mynd i'r afael ag ymddygiad a allai fod yn niweidiol. Roedd ymyriadau penodol wedi'u cynllunio at y diben hwn mewn 8 o blith yr 13 achos perthnasol.

(10) Roedd goruchwylio'r *RoN* gan reolwyr wedi bod yn aneffeithiol ym mhob un o'r achosion perthnasol ac eithrio un. Roedd polisi'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn dweud bod angen pennu lefel risg ar gyfer pob achos, ond gwelsom ychydig o achosion lle y cofnodwyd nad oedd lefel y risg yn berthnasol.

| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu. | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir a phrydlon ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA* | |
| ***Sgôr:***<br>***65%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd asesiadau cychwynnol o'r ToA wedi'u cwblhau ym mhob achos yn y sampl ac roedd 75% o'r rhain wedi'u cwblhau mewn pryd. Roedd rheolwyr achosion yn dda am adlewyrchu dylanwadau cadarnhaol yn Asset.

(2) Roedd ymwneud brwd â'r plentyn neu'r person ifanc wedi bod mewn 75% o'r sampl, a chyda'r rhieni/gofalwyr mewn 84% o'r achosion perthnasol. Roedd gwaith y swyddog rhianta wedi bod yn gefn i hyn, ac roedd y swyddog hwnnw wedi cynnig cymorth i bob rhiant yn ôl y galw.

(3) Fel rheol, byddai'r asesiadau'n defnyddio gwybodaeth a gedwid gan asiantaethau perthnasol eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol plant (84%), darparwyr cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg (69%), yr heddlu (89%) a chamddefnyddio sylweddau (67%). Byddai rheolwyr achosion yn ceisio cyngor a gwybodaeth gan gydweithwyr yn yr asiantaethau hyn wrth asesu, er nad oedd canlyniadau'r trafodaethau bob tro'n cael eu cofnodi'n glir.

(4) Yn y cynlluniau ymyrryd, roedd rheolwyr achosion wedi rhoi sylw dyledus i gamddefnyddio sylweddau, cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg a ffordd o fyw.

(5) Roedd 90% o'r cynlluniau ymyrryd wedi'u cwblhau mewn pryd; roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau'n adlewyrchu pwrpasau'r dedfrydu ac yn canolbwyntio ar newid y gellid ei wireddu a glynu wrth y safonau cenedlaethol.

(6) Roedd 71% o'r cynlluniau wedi ystyried anghenion Diogelu.

(7) Roedd gofal cymdeithasol plant wedi ymwneud yn frwd ac mewn ffordd ystyrlon â'r prosesau cynllunio mewn 84% o'r achosion perthnasol, gan gynnwys y rheini a oedd yn cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal, mewn dedfrydau cymunedol a dedfrydau dan glo.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd 53% o'r asesiadau cychwynnol wedi'u cwblhau yn ôl safon ddigonol. Serch hynny, gwelsom asesiadau lle'r oedd y dystiolaeth yn aneglur neu'n annigonol, rhai wedi'u gwneud yn hwyr, ychydig a oedd wedi methu ag adnabod yr holl ffactorau a oedd wedi cyfrannu at y troseddu a rhai a oedd wedi methu â gweld bod pobl yn agored i niwed.

(2) Y system yn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc oedd y byddai aelod o'r llys a'r tîm asesu yn cynnal asesiad adeg cam yr Adroddiad Cyn Dedfrydu, ac ar ôl dedfrydu, byddai aelod o'r tîm cymunedol yn cynnal yr asesiad nesaf.

Gwelsom, mewn llawer o achosion, fod gwahaniaethau enfawr o ran sut yr oedd yr asesiadau'n cael eu gwneud, a hynny'n aml yn arwain at sgoriau gwahanol iawn er mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd o newidiadau sylweddol.

(3) Yr oedd rheolwyr achosion wedi asesu arddull dysgu'r plentyn neu'r person ifanc mewn llai na hanner yr achosion, a lle yr aseswyd hynny, yr oedd hyn wedi'i wneud yn wahanol mewn gwahanol achosion.

(4) Roedd y cynlluniau ymyrryd wedi'u hintegreiddio â'r Cynlluniau Rheoli Risg mewn 38% o'r achosion ond roedd diffyg canolbwyntio yn y cynlluniau ar gymhelliant i newid, iechyd emosiynol/meddyliol a'r berthynas o fewn y teulu a chysylltiadau personol.

(5) Dim ond mewn 37% o'r achosion yr oedd y cynllun ymyrryd yn rhoi siâp clir i'r gorchymyn, roedd 47% yn cynnwys nodau perthnasol a 55% yn cynnwys arddull dysgu'r plentyn neu'r person ifanc.

(6) Yn y rhan fwyaf o'r achosion, ychydig o dystiolaeth oedd o flaenoriaethu ymyriadau neu lunio dilyniant ar eu cyfer yn ôl y *RoN* (36%). Roedd dilyniant i'r cynlluniau a hynny wedi'i seilio ar anghenion y troseddwr mewn 40% o'r achosion.

(7) Dim ond 33% o'r cynlluniau a oedd yn ystyried anghenion dioddefwyr.

(8) Dim ond ychydig dros hanner y cynlluniau ymyrryd a oedd yn sensitif i anghenion amrywiaeth.

(9) Er bod 55% o'r asesiadau cychwynnol wedi'u hadolygu, nid oedd gwybodaeth newydd wedi'i hychwanegu bob tro, ac nid oedd rheolwyr achosion ychwaith wedi defnyddio'r asesiad adolygu i ddadansoddi unrhyw newidiadau'n llawn.

(10) Defnyddiwyd yr holiadur *Beth yw'ch barn CHI?* yn sail i'r asesiadau mewn 9 o'r 32 achos.

(11) Roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi ymwneud â'r broses cynllunio mewn 58% o'r achosion a rhieni/gofalwyr wedi ymwneud â hi mewn 50% ohonynt. Yn ein barn ni, roedd gormod o gynlluniau'n cael eu cwblhau fel proses ar wahân i'r gwaith go iawn a oedd yn cael ei wneud gydag unigolion.

| **Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir a phrydlon, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***59%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

## *Cryfderau:*

(1) Sgriniwyd i ba raddau yr oedd pobl yn agored i niwed ym mhob achos ac roedd 81% o'r achosion wedi'u sgrinio mewn pryd.

(2) Lle y sylweddolwyd bod angen cymryd camau i wneud pobl yn llai agored i niwed, cafwyd ymyriad cysylltiedig â hynny mewn naw o'r deg achos. Serch hynny, nid oedd hyn bob tro'n cael ei gynnwys ar y Cynllun Rheoli Achosion Agored i Niwed.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Dim ond mewn 31% o'r achosion yr oedd sgrinio agored i niwed yn gywir a'r duedd oedd eu bod yn canolbwyntio ar unrhyw berygl o hunan-niweidio ar ffurf hunanladdiad neu droseddau gyrru ac nid ar y peryglon o du pobl eraill, gan gynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid. Nid oedd rheolwyr achosion yn cofnodi effaith ystod o ffactorau a allai gyfrannu at wneud plentyn neu berson ifanc yn agored i niwed, gan gynnwys, ond nid yn unig hynny, fod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal, trais yn y cartref a lefelau defnyddio cyffuriau ac alcohol. Roedd rheolwyr achosion yn aml yn ymwybodol o'r materion hyn ond heb sylweddoli eu heffaith o ran eu bod yn gwneud y plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed.

(2) Barn y tîm arolygu oedd y dylasai Cynllun Rheoli Achosion Agored i Niwed fod ar gael ar gyfer 21 o'r achosion yn y sampl. Serch hynny, dim ond wyth a oedd ar gael, a dim ond dau o'r rheini a oedd wedi'u cwblhau mewn pryd. Roedd rhai o'r cynlluniau rheoli achosion agored i niwed wedi'u cynhyrchu'n hwyr iawn yn y gorchymyn.

(3) Roedd ansawdd pedwar o'r Cynlluniau Rheoli Achosion Agored i Niwed o safon ddigonol. Roedd y lleill yn ddiffygiol am nad oedd ynddynt ymateb wedi'i gynllunio ac nid oedd rhai ond yn rhestru'r hyn y dylai asiantaethau eraill ei wneud, gydag ychydig o dystiolaeth o gydgynllunio.

(4) Ychydig yn llai na hanner yr achosion perthnasol a oedd wedi'u hadolygu yn ôl yr angen ac ni fanteisiwyd ar gyfleoedd i ailasesu sefyllfaoedd agored i niwed ar rai adegau hollbwysig, gan gynnwys wrth ryddhau rhywun ar ôl cyfnod dan glo ac wrth gwblhau'r cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol.

(5) Dim ond rhywfaint o wybodaeth oedd wedi'i rhannu â'r sefydliad carcharu; unwaith eto, yn aml iawn roedd a wnelo'r wybodaeth hon â risg o hunanladdiad neu hunan-niweidio, ac er bod hynny'n hollbwysig, nid oedd yn cynnwys holl ystod y ffactorau agored i niwed.

(6) Roedd y gwaith a wnaed ar y cyd â'r gwasanaethau plant yn amrywio ond gwelsom ymateb prydlon a thystiolaeth o gydweithio. Serch hynny, mewn achosion eraill, methwyd atgyfeiriadau neu roedd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc wedi gweithio ar wahân i'r gwasanaethau plant. Mewn ychydig o achosion atgyfeiriwyd plant a phobl ifanc droeon at y gwasanaethau plant heb i hynny gael fawr o effaith. Roedd proses dwysáu newydd ei chyflwyno er mwyn codi'r achosion hyn gyda'r ddau awdurdod, yn ôl yr angen.

**SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau 61%**

**SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:**

Roedd nifer o faterion allweddol wedi effeithio ar ansawdd yr asesu a chynllunio dedfrydau, gan gynnwys diffyg disgwyliadau clir a chyson y dylai'r staff weithredu i'w gwireddu a goruchwyliaeth aneffeithiol gan reolwyr. Roedd gan y staff sgiliau asesu da ac roeddent yn aml yn gwybod pa waith yr oedd angen iddynt ei wneud i fynd i'r afael â'r ffactorau a oedd yn arwain plant a phobl ifanc i droseddu. Serch hynny, nid oedd yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon bob tro wedi troi'n gynlluniau cadarn. Roedd diffyg prydlondeb wedi creu anawsterau drwy gydol y camau asesu a chynllunio, gan olygu bod rhai achosion heb gynlluniau i reoli risg ac achosion agored i niwed am gyfnodau hir o'r gorchymyn. Mae angen sicrhau newid er mwyn i gynlluniau ac asesiadau deinamig parhaus gael eu gweld yn elfennau canolog o reoli'r gorchymyn.

# 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| **2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill.* | |
| ***Sgôr:***<br>***66%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Ni welwyd yr un achos yn y sampl yr oedd angen ei gyfeirio at y trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd; roeddem yn cytuno â'r penderfyniadau hyn.

(2) Roedd ymweliadau pwrpasol â'r cartref wedi'u cynnal drwy gydol y ddedfryd yn unol â lefel y *RoN* mewn 91% o'r achosion ac mewn 84% o'r achosion lle'r oedd materion Diogelu yn codi.

(3) Roedd gwaith ymwybyddiaeth o ddioddefwyr wedi'i wneud gyda llawer o'r plant a'r bobl ifanc; roedd hyn wedi digwydd ar sail un-ac-un a thrwy ymyriadau penodol, gan gynnwys nifer o gynlluniau troseddau ceir.

(4) Roedd rheolwyr achosion wedi cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd amlasiantaeth mewn 89% o achosion dal glo ac mewn 67% o achosion cymunedol. Roedd tystiolaeth bod gwybodaeth am agweddau ac ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc yn ystod ei gyfnod dan glo wedi'i cheisio er mwyn llunio barn ynglŷn â'r *RoN.*

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd tystiolaeth o adolygiadau RoND prydlon mewn 55% o'r achosion. Mewn traean o'r achosion, roedd rheolwr yr achos wedi gweld newid sylweddol a ddylai fod wedi sbarduno adolygu'r *RoN* a berid. Roedd rheolwyr achosion wedi methu'r cyfle i ragweld newidiadau yn y *RoN.*

(2) Mewn 69% o'r achosion, roedd adnoddau priodol wedi'u dyrannu yn ôl asesiad y Gwasanaeth Troseddau Iechyd o'r *RoN.*

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol***<br>*Mae’r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso’r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***76%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd asiantaethau partner yn darparu ystod o ymyriadau a oedd wedi'u hanelu at leihau'r ToA. Y ffactorau a nodwyd amlaf oedd camddefnyddio sylweddau, cyflogaeth, hyfforddiant a rhianta. Roedd y gweithiwr addysg wedi creu cysylltiadau effeithiol â darpariaeth addysg y brif ffrwd ac â darparwyr addysg amgen, ac wedi hwyluso'r ffordd i blant a phobl ifanc ddychwelyd i fyd addysg. Roedd llawer o ymyriadau wedi'u cyflawni gan swyddogion cymorth y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a gwelsom dystiolaeth iddynt wneud gwaith mewn nifer o feysydd cysylltiedig â throseddu, gan gynnwys meddwl am y canlyniadau.

(2) Roedd ymyriadau wedi'u darparu'n unol â'r cynllun ymyrryd mewn 74% o'r achosion ond roedd llai na hanner y rheini'n cynnwys dilyniant priodol.

(3) Roedd mwyafrif yr ymyriadau wedi'u llunio i leihau'r ToA ac roedd llawer yn briodol ar gyfer arddull dysgu'r plant a'r bobl ifanc. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc ystod o ymyriadau ym maes troseddau ceir, pob un ohonynt yn targedu gwahanol lefelau o droseddu.

(4) Roedd camddefnyddio sylweddau ar Haen un a dau ar gael o fewn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Serch hynny, nid oedd rhai o'r anghenion iechyd corfforol wedi cael sylw oherwydd swydd wag o fewn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.

(5) Edrychwyd ar ddeg achos lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi bod dan glo. Mewn wyth o'r rhain, roedd ymweliadau wedi cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn adolygu'r ymyriadau a pharatoi ar gyfer rhyddhau.

(6) Roedd sylw da wedi'i roi i ffordd o fyw pobl, gan eu hatgyfeirio at y gwasanaeth ieuenctid mewn achosion perthnasol, er mwyn cynnig cyfleoedd iddynt ymgymryd â gweithgareddau adeiladol.

(7) Roedd yn amlwg o'r trafodaethau gyda rheolwyr achosion ac o gofnodion achosion bod plant a phobl ifanc wedi cael cymorth gweithredol a'u cymell drwy'r ddedfryd. Yn yr un modd, gwelsom fod ymddygiad cadarnhaol wedi'i gydnabod a'i atgyfnerthu.

(8) Roedd cysylltiad wedi'i gynnal â'r rhieni/gofalwyr drwy gydol y ddedfryd mewn dros 80% o'r achosion dan glo ac mewn 94% o'r achosion cymunedol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Dim ond mewn 38% o'r achosion yr adolygwyd ymyriadau'n briodol. Roedd hyn wedi golygu bod rheolwyr achosion yn asesu effaith ymyriadau ar sail ad hoc, yn hytrach nag ar sail systematig. Roedd hyn wedyn wedi effeithio ar allu'r staff cymorth i lunio dilyniant priodol ar gyfer ymyriadau.

(2) Nid oedd cynlluniau'r Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys yn integreiddio â chynllun y ddedfryd, ac ar brydiau, gallai'r gwaith a wnaed gan y tîm hwn fod ar wahân i'r gwaith rheoli achos.

| **2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***57%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YN SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd atgyfeiriadau angenrheidiol, er mwyn sicrhau Diogelu, wedi'u gwneud yn yr achos dan glo perthnasol.

(2) Gwelsom dystiolaeth o waith prydlon ar y cyd ag asiantaethau eraill er mwyn hyrwyddo Diogelu. Y gwaith ym maes camddefnyddio sylweddau, cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg a'r heddlu oedd fwyaf nodedig ac i raddau llai y gwaith gyda'r gwasanaethau plant, gwasanaethau llety ac ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl.

(3) I blant a phobl ifanc a oedd wedi symud yn ôl i'r gymuned ar ôl cyfnod dan glo, gwelwyd rhywfaint o barhad da yn yr ymyriadau yng nghyswllt cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, gwasanaethau llety a gofal cymdeithasol i blant.

(4) Roedd ymyriadau yn y gymuned, yn hyrwyddo Diogelu, i'w gweld mewn 65% o'r achosion perthnasol ond dim ond mewn ychydig dros hanner y Cynlluniau Rheoli Achosion Agored i Niwed a gynhyrchwyd yr ymgorfforwyd yr ymyriadau hynny.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Rydym yn disgwyl gweld bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i amddiffyn plant a phobl ifanc ar unwaith. Gwelsom nad oedd hyn wedi digwydd ond mewn un o bedwar achos dan glo ac mewn tri achos cymunedol

o blith deg. Ffactorau a oedd yn cyfrannu at y farn hon oedd nad oedd plant a phobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio, ac ar gyfer y rheini a oedd dan glo, nad oedd yr holl wybodaeth ynglŷn â'u hanghenion yn y fan a'r lle oherwydd eu bod yn agored i niwed wedi'u hanfon ymlaen at y sefydliad diogel. Gwelsom fod atgyfeiriadau wedi'u gwneud i asiantaethau eraill er mwyn sicrhau Diogelu mewn hanner yr achosion cymunedol perthnasol.

(2) Roedd rheolwyr achosion a staff perthnasol eraill wedi cefnogi a hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc drwy gydol y ddedfryd mewn 50% o achosion dan glo ac mewn 63% o achosion cymunedol.

(3) Gwelwyd nad oedd goruchwylio effeithiol gan reolwyr dros Ddiogelu ac anghenion agored i niwed ond mewn un o blith chwe achos dan glo ac mewn pedwar achos cymunedol o blith 21.

(4) Roedd ymyriadau dan glo i hyrwyddo Diogelu i'w gweld mewn 71% o'r achosion perthnasol a dim ond hanner y rheini a oedd wedi'u hadolygu ar ôl newid sylweddol. Nid oedd dim o'r gwaith hwn wedi'i ymgorffori yn y VMPs.

**SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd Cyflawni ac Adolygu Ymyriadau 66%**

**SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:**

Roedd y perfformiad o ran cyflawni ac adolygu ymyriadau (ToA a *RoN)* yn gryfach nag yr oedd yr asesu a'r cynllunio. Gwelwyd fod rheolwyr achosion yn gwneud gwaith nad oedd yn rhan benodol o'r cynllun. Roedd y cydweithio rhwng rheolwyr achosion ac asiantaethau eraill yn dal yn nodwedd gadarnhaol yn gyffredinol. Oherwydd diffyg adolygu ymyriadau'n ffurfiol ar gyfer *RoN* a Diogelu, roedd yn anodd i'r staff weithiau olrhain y cynnydd a gweld beth oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Gwelwyd fod plant a phobl ifanc yn cael eu gweld gan amrywiaeth o staff yn ystod cyfnod y gorchymyn; felly, mae angen i reolwyr achosion sicrhau eu bod yn cydlynu ac yn asesu cynnydd ac effeithiolrwydd y gwaith yn llawn. Roedd anghenion dioddefwyr wedi'u hasesu a'r staff wedi ymateb iddynt mewn oddeutu 70% o'r achosion.

# 3. CANLYNIADAU

| **3.1 Sicrhau canlyniadau** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***43%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YN SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Mewn 71% o'r achosion lle'r oedd angen hynny, roedd camau gorfodi wedi'u cymryd yn ddigon da.

(2) Rhai o'r ffactorau a oedd wedi cyfrannu fwyaf at leihau ymddygiad troseddol oedd cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, camddefnyddio sylweddau a ffordd o fyw.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y *RoN* wedi'i rheoli'n effeithiol mewn 36% o'r achosion.

(2) Roedd gostyngiad cyffredinol wedi bod yn sgôr Asset mewn 41% o'r achosion yn y sampl. Y ffactorau a oedd wedi gostwng fwyaf oedd camddefnyddio sylweddau, cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg, ffordd o fyw a chymhelliant i newid. Roedd gostyngiad yn y ffactorau a oedd yn gysylltiedig â Diogelu yn amlwg mewn 29% o'r achosion perthnasol.

(3) Mewn 63% o'r sampl, roedd pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel.

(4) Y ffactorau cysylltiedig â throseddu a oedd wedi gostwng lleiaf oedd iechyd corfforol, meddyliol ac iechyd meddwl a pherthynas â'r teulu a chysylltiadau personol.

(5) Mewn 11 o'r 32 achos, nid oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion y ddedfryd.

| 3.2 Cynnal canlyniadau | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***75%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd sylw llawn wedi'i roi i faterion yn ymwneud ag integreiddio i'r gymuned mewn 78% o'r gorchmynion cymunedol ac mewn 80% o'r achosion dan glo.

(2) Mewn 75% o'r gorchmynion cymunedol, roedd cynlluniau ar waith, neu gamau wedi'u cymryd i sicrhau bod y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd yn cael eu cynnal.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*


(1) Mewn 60% o'r gorchmynion cymunedol, roedd cynlluniau ar waith, neu gamau wedi'u cymryd i sicrhau bod y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd yn cael eu cynnal.

### SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd gwaith CANLYNIADAU: 54%

### SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:

Llesteiriwyd y gallu i olrhain newidiadau i sgoriau Asset yn ystod y gorchymyn oherwydd bod y sgoriau yn Asset yn amrywio gymaint. Roedd hyn yn dibynnu ar ba aelod o'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a oedd yn asesu'r plentyn neu'r person ifanc. Byddai agwedd fwy cyson at sgorio Asset drwy'r timau'n cynnig llinell sylfaen glir ar gyfer mesur yr hyn a gyflawnid. Hefyd, oherwydd nad oedd rhai adolygiadau'n cael eu cynnal, roedd y sefydliad yn colli'r cyfle i weld beth oedd effaith yr ymyriadau.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Blaenau Gwent a Chaerffili yng Ngwent yng Nghymru.

Poblogaeth ardal Caerffili oedd 169,519 a phoblogaeth Blaenau Gwent oedd 70,064 yn ôl Cyfrifiad 2001. Roedd 11.3% o boblogaeth Caerffili rhwng 10 ac 17 oed ac 11.5% o boblogaeth Blaenau Gwent yn y grŵp oedran hwnnw. Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 10.6%. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Prydeinig gwyn oedd poblogaeth Blaenau Gwent a Chaerffili yn bennaf (99.1% Caerffili; 99.2% Blaenau Gwent). Roedd y ganran o'r boblogaeth a ddeuai o gefndir du neu o leiafrif ethnig yn is na chyfartaledd Cymru sef 2.1%. (0.9% Caerffili; 0.8% Blaenau Gwent). Y ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 8.7%.

Roedd y troseddau a gofnodwyd yr oedd plant a phobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed wedi cael dyfarniad cyn-llys neu ddyfarniad yn y llys ar eu cyfer yn 2008/2009, sef 45 ym mhob 1,000, yn is na chyfartaledd Cymru/Lloegr, sef 46.

### Y GWASANAETH TROSEDDWYR IFANC

Roedd ffiniau'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc o fewn ffiniau ardal heddlu Gwent ac Ymddiriedolaeth Prawf Cymru (a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2010).

Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili. Roedd yr holl bartneriaid statudol yn bresennol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd.

Yn nhref y Coed Duon yng Nghaerffili yr oedd pencadlys y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Yma yr oedd canolfan gwaith gweithredol y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Darperid Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys gan y Gwasanaeth.

### Data'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ynglŷn â pherfformiad.


Roedd crynodeb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o'r dangosyddion cenedlaethol a oedd ar gael adeg yr arolygiad yn berthnasol i'r cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


O ran sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc mewn cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg addas, roedd Blaenau Gwent a Chaerffili wedi llwyddo i sgorio 57.9%. Roedd hyn yn ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol, ac yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 69.0%.


O ran sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd, y sgôr oedd 98.1%. Roedd hyn welliant bach ers y flwyddyn flaenorol ac yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 96.1%.


O ran "Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis", y sgôr oedd 90%, a oedd yn waeth na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 74% (gweler yr Eirfa).


## Atodiad 3a: Data arolygu



## Atodiad 3b: Data arolygu

Ymgymerwyd â'r gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Ebrill 2010.

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio'r ymarfer mewn sampl o achosion, fel rheol ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr.

Rydym hefyd wedi gweld data perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'u hasesiadau sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer i'w gweld ar ein gwefan:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cynnig sylwadau am arolygiad, adroddiad neu am unrhyw fater arall sydd o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Prawf EM*
*2il Lawr, Ashley House*
*2Monck Street*
*Llundain, SW1P2BQ*

Mae siartiau data yr adroddiad hwn ar gael ar ffurf electronig dim ond ichi ofyn.

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| | Antisocial behaviour/Antisocial Behaviour Order / Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| Asset | Arf asesu strwythurol a seilir ar ymchwil ac a ddatblygir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gan edrych ar drosedd y person ifanc, ei amgylchiadau personol, a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at yr ymddygiad troseddol |
| CAF | Common Assessment Framework/Fframwaith Asesu Cyffredin: dull safonol o asesu anghenion plentyn neu berson ifanc a sut mae diwallu'r anghenion hynny Fe'i gwneir gan brif weithiwr proffesiynol achos, a bydd pawb arall sy'n ymwneud â'r unigolyn hwnnw'n cyfrannu hefyd. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services / Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n darparu gwasanaethau arbenigol iechyd meddwl ac ymddygiadol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed fan leiaf. |
| Careworks | Un o'r ddwy system rheoli achosion electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr. Gweler hefyd YOIS+ |
| CRB | Criminal Records Bureau / Y Swyddfa Cofnodion Troseddol |
| DTO | Detention and Training Order / Gorchymyn Cadw a Hyfforddi: dedfryd dan glo i'r ifanc |
| Estyn | Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru |
| ETE | Employment, training and education / Cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella'u rhagolygon am waith |
| FTE | Full-time equivalent / Cyfwerth ag amser llawn |
| HM | Her Majesty's / Ei Mawrhydi |
| HMIC | HM Inspectorate of Constabulary / Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi |
| HMI Prisons | HM Inspectorate of Prisons / Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi |
| HMI Probation | HM Inspectorate of Probation / Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| Ymyriadau; *ymyriadau adeiladol ac ymyriadau cyfyngu* | Gwaith gydag unigolyn gyda'r nod o newid ei ymddygiad troseddol a/neu gynorthwyo i amddiffyn y cyhoedd.<br>Prif nod ymyriad adeiladol yw Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu. Prif bwrpas ymyriad *cyfyngu* yw cadw'r *Risg o Niwed i eraill* gyn lleied ag y bo modd. Enghreifftiau: gyda throseddwr rhyw, enghraifft o *ymyriad adeiladol* fyddai ei roi drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; *ymyriad cyfyngu* (i sicrhau'r *Risg leiaf o Niwed)* fyddai monitro'n rheolaidd ac yn drylwyr ei sefyllfa o ran llety, cyflogaeth a'r mannau y mae'n eu mynychu, gan bennu a gorfodi cyfyngiadau clir fel sy'n briodol ym mhob achos.<br>DS. Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig |
| ISSP | Intensitve Supervision and Surveillance Programme / Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys: rhoddir yr ymyriad hwn ynghlwm wrth ddechrau rhai gorchmynion a thrwyddedau ac mae'n cynnig o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen i ddechrau gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| LoR/ToA | Likelihood of Reoffending / Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol* |
| LSC | Learning and Skills Council / Y Cyngor Dysgu a Sgiliau |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board / Y Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sefydlwyd un o'r rhain ym mhob awdurdod lleol (yn sgil Deddf Plant 2004) i gydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith amlasiantaeth i ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno. |
| MAPPA | Multi-Agency PUblic Protection Arrangements Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd. lle bydd y gwasanaeth prawf, yr heddlu, y carchardai ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n lleol i reoli troseddwyr sy'n peri *Risg* uwch *o Niwed i eraill* |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills / Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: Yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru - ar gyfer Cymru, gweler Estyn) |
| PCT | Primary Care Trust / Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol |

| | |
|---|---|
| PPO | Prolific and other Priority Offender / Troseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr penodedig, yn oedolion neu'n ifanc, a gaiff sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol |
| Pre-CAF | 'Cais am Wasanaeth' yn syml yw hwn ar yr adegau hynny pan na fydd angen Fframwaith Asesu Cyffredin o bosibl. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau o wasanaethau ychwanegol e.e. iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR / ACD | Adroddiad cyn dedfrydu: ar gyfer llys |
| 'Cyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n dangos faint o droseddau ychwanegol y cofnodwyd iddynt gael eu cyflawni mewn cyfnod o naw mis gan unigolion sydd o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc perthnasol ar y pryd, a gall fod naill ai'n fwy neu'n llai na 100%.<br>Felly, byddai "110%' yn golygu y cyfrifwyd bod 110 yn union o droseddau pellach wedi'u cyflawni 'ar gyfer pob 100 unigolyn sydd dan oruchwyliaeth' yn y cyfnod hwnnw. Ddechrau 2009, y gyfradd genedlaethol ar gyfartaledd yng Nghymru oedd 74% |
| RMP | Risg management plan / Cynllun rheoli risg: cynllun i sicrhau cyn lleied o *Risg o Niwed* i unigolyn ag sy'n bosibl. |
| *RoH / RoN* | *Risk of Harm to others / Risg o Niwed i eraill* Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu.* |
| *'Gwaith RoN, neu 'Gwaith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel rheol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio'r gwaith a wneir i amddiffyn y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngu*, er mwyn sicrhau bod cyn lleied o gyfle ag y bo modd i'r unigolyn ymddwyn mewn ffordd sy'n peri *Risg o Niwed i eraill* |
| RoSH / RoND | Risk of Serious Harm / Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn Asset. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi beidio â defnyddio'r term hwn gan nad yw'n gymorth i egluro'r gwahaniaeth rhwng y *tebygolrwydd* y bydd rhywbeth yn digwydd ac *effaith/difrifoldeb* y digwyddiad hwnnw. Dim ond effaith 'ddifrifol' y mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ei chynnwys, ond mae defnyddio '*Risg o Niwed'* yn golygu bod modd rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny y mae'n *debygol* y byddant yn ymddwyn mewn ffordd niweidiol sy'n llai *difrifol* neu a gaiff *lai o effaith* |
| Diogelu | Y gallu i ddangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau cyn lleied o risg ag y bo modd i blentyn neu berson ifanc gael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents / Cyfweliad Sgrinio i'r Glasoed: Arf sgrinio iechyd meddwl cymeradwy gan y Bwrdd Cyfiawnder ieuenctid i weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents / Holiadur Sgrinio wrth Gyfweld â'r Glasoed: Arf sgrinio iechyd meddwl cymeradwy gan y Bwrdd Cyfiawnder ieuenctid i weithwyr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan / Cynllun rheoli achosion agored i niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sydd o dan oruchwyliaeth |
| YJB | Youth Justice Board for England and Wales / Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr |
| YOI | Young Offenders Institution / Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa neu a ddedfrydir i gyfnod o dan glo |
| YOIS+ | Youth Offending Information System / System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc: Un o'r ddwy system rheoli achosion electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr. Gweler hefyd Careworks. |
| YOS/T | Youth Offending Service/team / Gwasanaeth/Tîm Troseddwyr Ifanc |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6ed Llawr Trafford House
Chester Road
Stretford
Manceinion
M32 0RS
Ffôn - 0161 869 1300

Mae fformatau eraill ar gael dim ond ichi ofyn

ISBN 978-1-84099-357-8